# Ysgol Hafan Y Môr

# Polisi Diogelu
# 2025-26

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | Tud. 2 |
| **Dyletswydd i hysbysu plant mewn perygl** | Tud. 2 |
| **Dyletswydd i hysbysu oedolion mewn perygl** | Tud. 3 |
| **Cyfrinachedd** | Tud. 3 |
| **Atal** | Tud. 4 |
| **Gweithdrefnau Diogelu** | Tud. 4 |
| **Gwneud Cyfeireb Ddiogelu** | Tud. 5 |
| **Chwythu'r Chwiban** | Tud. 6 |
| **Diogelu plant dan amgylchiadau penodol** | Tud. 7 |
| **Rheoli Honiadau / Pryderon ynghylch Ymarferwyr a'r rhai mewn Sefyllfaoedd Ymddiriedol** | Tud. 8 |
| **Cynorthwyo plant a phobl ifanc** | Tud. 8 |
| **Cwynion** | Tud. 10 |
| **Atodiad A** – Ymateb i honiad plentyn neu rywun ifanc | Tud. 12 |
| **Atodiad B** – Cyfrifoldebau'r Person Diogelu Penodedig (DSP) | Tud. 13 |
| **Atodiad C** – Cyfrifoldebau cyrff llywodraethol / perchenogion | Tud. 18 |
| **Atodiad D** – Diffiniadau a dangosyddion cam-drin | Tud. 20 |
| **Atodiad E** – Camfanteisio ar Ymddiriedaeth | Tud. 22 |
| **Atodiad F** – Gwybodaeth am Ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru | Tud. 23 |
| **Appendix G** – Diogelu Ar-lein | Tud. 24 |
| **Atodiad H** - Wythnos Anghymesur | Tud.25 |
| **Adolygu'r Polisi** | Tud. 26 |

## Cyflwyniad

Mae Ysgol Hafan Y Môr yn cydnabod yn llawn ei chyfraniad at ddiogelu. Mae'n ymroddi'n llwyr i gadw at Weithdrefnau Diogelu Cymru (Atodiad F), canllawiau Llywodraeth Cymru 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' ac adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu ysgolion a sefydliadau a gynhelir fod â threfniadau ar gyfer arfer eu swyddogaethau gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo lles plant gan greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel.

Mae tair prif elfen i'n polisi:

- atal trwy'r addysgu a'r cymorth bugeiliol a gynigir i ddisgyblion
- gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd achosion, neu achosion tybiedig, o gam-drin gan riant/gofalwr neu ymarferydd, ac mae hynny'n cynnwys aflonyddu rhywiol gan gyfoedion. Oherwydd ein cyswllt dyddiol gyda phlant, mae staff yr ysgol mewn sefyllfa dda i arsylwi'r arwyddion allanol o gam-drin
- cymorth i ddysgwyr sydd wedi cael eu cam-drin gan riant/gofalwr/ymarferydd neu gan gyfoedion.

Byddwn hefyd yn gweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod cyfundrefn gadarn ar gyfer y canlynol:

- atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc;
- hyrwyddo arferion diogel a herio arferion gwael ac anniogel;
- asesu risg a sicrhau diogelwch plant tra byddant oddi ar y safle neu ar ymweliadau addysgol;
- cyfrannu at weithio effeithiol ar y cyd rhwng pawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc;
- cysylltu ag ysgolion/asiantaethau eraill pan fydd pryderon lefel isel am ddisgybl a allai fod â brawd neu chwaer mewn ysgol/lleoliad arall, gan y gallent ddarparu gwybodaeth berthnasol arall neu gynnig cymorth;
- sicrwydd safle yn yr ysgol a'r cylch gan gynnwys mynediad ymwelwyr â'r ysgol.

Mae ein polisi'n berthnasol i **holl** staff, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol. Bydd ein hysgol yn adolygu'r polisi bob blwyddyn ac mae'n ymrwymo i ddilyn unrhyw ganllawiau newydd a ddaw oddi wrth Lywodraeth Cymru neu Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR).

## Dyletswydd i hysbysu plant mewn perygl

Fel partner perthnasol, mae dyletswydd ar Ysgol Hafan Y Môr i hysbysu unrhyw bryderon ynghylch plentyn mewn perygl fel yr amlinellir yn adrannau 162(2) a 1624(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Mae Adran 130(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio 'plentyn mewn perygl' fel a ganlyn:

- plentyn sy'n dioddef neu mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed; a hefyd
- plentyn sydd ag anghenion gofal a chymorth

Gellir cysylltu â Thîm Asesu Gofal Plant, Cyngor Sir Penfro am gyngor ac arweiniad ar 01437 776444.

## Dyletswydd i hysbysu oedolion mewn perygl

Mae dyletswydd ar yr ysgol hefyd i hysbysu 'oedolion mewn perygl' sy'n cael eu hamlinellu yn adran 126(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae diffiniad 'oedolyn mewn perygl' fel a ganlyn:

- oedolyn sy'n dioddef neu mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod
- oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth
- oedolyn sydd, o ganlyniad i'r anghenion hynny, yn methu amddiffyn ei hun rhag y cam-drin neu berygl cam-drin.

Mae modd cysylltu â'r Tîm Diogelu Oedolion yng Nghyngor Sir Penfro i gael cyngor a chyfarwyddyd ar 01437 776056.

Dylid trafod Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF) gyda'r Tîm Asesu Gofal Plant dros y ffôn cyn ei chyflwyno. Yna cyflwynir pob MARF i CCATDuty@pembrokeshire.gov.uk.
Gyda phob ymholiad cyffredinol, anfonwch neges e-bost i CCAT@pembrokeshire.gov.uk neu ffoniwch 01437776444.
Sylwer – dim ond o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9am a 5pm, y mae'r cyfeiriadau e-bost uchod yn weithredol.
Os yw eich ymholiad yn un brys y tu allan i'r oriau hyn, cysylltwch â'n Tîm Argyfwng y Tu Allan i Oriau ar 0300 123 5519.

## Cyfrinachedd

Weithiau nid yw plant neu bobl ifanc yn teimlo'n hyderus i ddweud wrth aelod o'r staff y cawsant eu niweidio heblaw eu bod yn teimlo na fydd y wybodaeth yn cael ei rhannu gyda neb arall. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb proffesiynol ar staff i rannu gwybodaeth berthnasol ynghylch unrhyw gamdriniaeth neu esgeulustod honedig o blant gyda'r asiantaethau statudol dynodedig.

Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn deimladol ac yn egluro wrth y plant neu bobl ifanc yr angen i ddweud wrth y bobl berthnasol, ond na fyddant yn dweud wrth neb ond y rhai sydd angen gwybod, ac na fydd yn cael ei rannu'n gyffredinol. Byddwch yn ymwybodol y gallai fod wedi cymryd cryn ddewrder ar eu rhan i rannu eu camdriniaeth neu esgeulustod ac y gallant hefyd fod yn teimlo teimladau croes i'w gilydd, yn cynnwys euogrwydd, embaras ac anffyddlondeb os yw'r camdriniwr yn rhywun agos.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau mai dim ond y rhai gyda rhan broffesiynol, e.e. y Person Diogelu Penodedig (DSP) a'r Pennaeth, sy'n cael mynediad at unrhyw gofnodion diogelu. Ar bob adeg arall dylid eu storio'n ddiogel, naill ai ar ffurf electronig neu dan glo mewn cabinet ffeilio, ac ar wahân i brif ffeil y plentyn neu berson ifanc.
Mae dogfen ar wahân, 'Polisi Cadw a Throsglwyddo Cofnodion,' yn rhoi arweiniad ar ddiogelu cofnodion mewn ysgolion.

Y Person Diogelu Penodedig ar gyfer diogelu yn yr ysgol hon yw: Mrs Sioned King a Mr Jonathan Thomas

## Atal

Rydym yn cydnabod bod hunan-barch, hyder, cyfeillion cefnogol a llinellau cyfathrebu da gydag oedolyn dibynadwy'n helpu diogelu disgyblion.

Bydd yr ysgol felly yn:

- sefydlu a chynnal ethos o sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu hannog i siarad ac yn cael eu clywed
- sicrhau bod plant yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y gallant droi atynt os ydynt yn bryderus neu'n profi anhawster
- cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd yn y cwricwlwm ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar blant er mwyn gallu diogelu eu hunain rhag camdriniaeth ac er mwyn gwybod at bwy y gallant droi am gymorth
- sicrhau bod plant yn ymwybodol o'u hawliau i fod yn ddiogel trwy hyrwyddo CCUHP
- meithrin cydberthnasau ag asiantaethau eraill a sicrhau atgyfeiriadau cynnar a phriodol er mwyn derbyn cymorth ac ymyrraeth cyn i risgiau gynyddu; mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan (lleoliad) at lesiant a fydd yn ymgorffori diogelu a mesurau ataliol i gefnogi plant a theuluoedd

## Gweithdrefnau Diogelu

Rydym yn cadw at Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019 a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant y Canolbarth a'r Gorllewin (CYSUR). Rydym hefyd yn cydnabod 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)'. Mae'r ysgol yn gwneud y canlynol:

- enwi Person Diogelu Penodedig (DSP) ar gyfer diogelu sydd wedi dilyn hyfforddiant perthnasol. Dyma'r enw/au perthnasol Mrs Sioned King

- cydnabod swyddogaeth y DSP sydd wedi dilyn hyfforddiant diogelu priodol yn ôl dogfen Llywodraeth Cymru 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'. (Gwelwch Atodiad B)
- sicrhau bod y DSP wedi cwblhau pum modiwl '*Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'* sydd i'w cael ar wefan yr HWB
- sicrhau bod pob aelod o staff a'r llywodraethwyr:
    - yn gwybod enw a swyddogaeth y DSP a'r llywodraethwr penodedig ar gyfer diogelu
    - yn gwybod bod ganddynt gyfrifoldeb unigol dros atgyfeirio pryderon diogelu trwy ddilyn y prosesau a phrotocolau lleol
    - yn gwybod sut i atgyfeirio pryderon pan nad yw'r DSP ar gael
- sicrhau bod holl staff yn ymwybodol o ac yn effro i arwyddion cam-drin ac yn gwybod sut i ymateb i ddisgybl sy'n gwneud honiad (gwelwch Atodiad A)
- sicrhau bod yr aelodau staff sydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn ymwybodol o'r *Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer cofrestryddion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg* a'r disgwyliad sydd o fewn y cod i'r cofrestrai roi ystyriaeth i ddiogelwch a llesiant y dysgwyr yn eu gofal a chynnwys cysylltiedig
- sicrhau bod rhieni'n deall cyfrifoldeb diogelu'r ysgol a bod hyn yn cael ei amlinellu yn llyfryn / prosbectws yr ysgol
- sicrhau bod holl staff yn dilyn unrhyw hyfforddiant diogelu a gytunwyd gyda'r awdurdod lleol sy'n berthnasol i'w swyddogaeth
- darparu hyfforddiant i'r holl staff fel eu bod:
  – yn deall eu cyfrifoldeb personol
  – yn gwybod y gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt a'u dyletswydd i ymateb
  – yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus wrth nodi achosion o gam-drin ac esgeulustod
  – yn gwybod sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu camdriniaeth neu esgeulustod
- yn deall beth yw rôl ymddygiadau ar-lein ym mhob un o'r uchod, ac yn
- hysbysu adran gofal cymdeithasol y Gwasanaethau Plant:
    - os caiff dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant ei wahardd, naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol
    - os yw dysgwr sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol o'r ysgol heb esboniad am fwy na dau ddiwrnod (neu un diwrnod ar ôl penwythnos)
- yn darparu sesiwn friffio ar ddiogelu yn rheolaidd i'r holl staff ynghylch:
    - eu cyfrifoldeb personol dros ddiogelu
    - gweithdrefnau atgyfeirio diogelu lleol
    - nodi camdriniaeth ac esgeulustod
    - sut i gefnogi plentyn sy'n honni camdriniaeth
    - unrhyw wybodaeth neu weithdrefnau diogelu newydd
- gweithio i ddatblygu cysylltiadau effethiol gydag asiantaethau perthnasol a chydweithredu gyda'u hymholiadau diogelu yn ôl y gofyn, gan gynnwys mynychu adolygiadau cychwynnol yn ogystal â chynadleddau amddiffyn plant a grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau.
- cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon ynghylch plant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed pan nad oes angen cyfeirio'r mater at Ofal Cymdeithasol ar unwaith
- sicrhau cadw holl gofnodion yn ddiogel dan glo neu gyfrinair

## Gwneud Cyfeireb Ddiogelu

- cadw at y gweithdrefnau a nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru *Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol: Canllawiau diwygiedig i gyrff llywodraethu*
- sicrhau bod trefnau denu a dewis yn dilyn protocol yr awdurdod lleol a chanllawiau Llywodraeth Cymru: 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'
- dynodi llywodraethwr ar gyfer diogelu sy'n goruchwylio polisi ac arferion diogelu'r ysgol (gwelwch dudalennau Atodiad C – Cyfrifoldebau Cyrff Llywodraethol / Perchenogion).

Os oes gan aelod o'r staff bryderon ynghylch lles plentyn neu rywun ifanc, bydd y DSP neu'r Pennaeth yn cael ei hysbysu ar unwaith. Byddant yn gofyn am gyngor y Tîm Asesu Gofal Plant (TAGP) ar 01437 776444 ac yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros wneud unrhyw adroddiad dilynol (cyfeireb) i TAGP. Os nad yw'r DSP na'r Pennaeth ar gael **RHAID I HYN BEIDIO AG OEDI GWEITHREDU**. Dylai'r aelod o'r staff dan sylw ofyn am gyngor y TAGP yn uniongyrchol a dweud wrth y DSP neu'r Pennaeth pa gyngor a gafodd neu gyflwyno adroddiad (cyfeireb) mor fuan ag y bo modd.

Pan fo gwahaniaethau barn, dylai'r aelod o'r staff ofyn am gyngor yn uniongyrchol o'r Tîm Asesu Gofal Plant. Os yw'r plentyn neu rywun ifanc ar fin gadael yr eiddo, dylid hysbysu'r DSP neu'r Pennaeth ar unwaith. Y DSP neu'r Pennaeth, ar ôl ymgynghori â'r TAGP, fydd yn penderfynu ar y camau nesaf.

Os mai cyngor y TAGP yw cyflwyno adroddiad ysgrifenedig (cyfeireb) i'r Tîm Asesu Gofal Plant (TAGP), rhaid gwneud hyn ar Ffurflen Cyfeireb Amlasiantaethol (MARF) o fewn 24 awr.

Bydd ceisio barn rhieni am y gyfeireb bob amser yn cael ei ystyried ar sail unigol naill ai er mwyn eu cytundeb neu i'w gwneud yn ymwybodol o'r gyfeireb ond dim ond os nad yw hyn yn rhoi plentyn neu berson ifanc mewn mwy o berygl o niwed.

Er y caiff oed a sgiliau llafar plentyn neu rywun ifanc eu hystyried bob amser, fe all yr Heddlu a/neu'r Tîm Asesu Gofal Plant fod eisiau cyfweld plentyn neu rywun ifanc yn eiddo'r ysgol ac fe all y DSP neu'r Pennaeth ganiatáu'r cais hwn.

Os oes anaf wedi digwydd, dylid gweithredu fel a ganlyn, boed rheswm dros gredu y cafodd ei achosi gan gamdriniaeth neu beidio:

a) Os yw'r anaf yn ddifrifol ac yn gofyn sylw meddygol brys, dylid galw ambiwlans i fynd â'r plentyn neu rywun ifanc i'r Adran Ddamweiniau ac Argyfwng.

b) Os oes honiad neu achos rhesymol dros gredu mai rhiant neu ofalwr a achosodd yr anaf neu gamdriniaeth, rhaid hysbysu'r Tîm Asesu Gofal Plant (TAGP) AR UNWAITH oherwydd fe allant ddymuno gwneud trefniadau i Bediatregydd archwilio'r plentyn pan fydd yn cyrraedd yr ysbyty.

c) Trafod gyda'r TAGP neu'r Heddlu pwy fydd yn gwneud y penderfyniad ynghylch pa bryd i hysbysu'r rhieni / gofalwyr.

Rhaid i'r DSP neu'r Pennaeth gael gwybod ar unwaith am y camau gweithredu

uchod. Gallai methiant staff i hysbysu amheuaeth o gam-drin plentyn beri cymryd camau disgyblu yn eu herbyn.

## Chwythu'r Chwiban

Bydd ein hysgol yn sicrhau bod holl staff yn gyfarwydd â threfniadau'r awdurdod lleol ar gyfer chwythu'r chwiban. Dylai staff fod yn ymwybodol bod adran 3.3 o bolisi Chwythu Chwiban yr awdurdod lleol yn datgan, pan fo unrhyw bryder yn berthnasol i fater diogelu, eu bod yn gorfod ymgynghori â'r Tîm Asesu Gofal Plant, a fydd yn ei dro yn hysbysu Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (SDALI) sy'n rheoli honiadau/pryderon proffesiynol os oes gofyn.

## Diogelu plant dan amgylchiadau penodol

Mae diffiniadau camdriniaeth ac esgeulustod i'w cael yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru a dogfen Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 '*Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5 – Trin Achosion Unigol i Ddiogelu Plant mewn Perygl'* ond maent i'w cael yn gyfleus hefyd yn Atodiad C, Diffiniadau a Dangosyddion Cam-drin Plant.

Mae ein hysgol yn cydnabod y gall rhai plant neu bobl ifanc fod yn fwy agored i gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae gennym ddyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu penodol mewn perthynas â'r rhain ac rydym yn cadw at y Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan canlynol mewn perthynas â'r rhain.

- Diogelu plant rhag Cam-fanteisio ar Blant (CaB)
- Diogelu plant rhag arferion niweidiol sy'n ymwneud â thrafodiad, diwylliant, crefydd neu ofergoelau
- Diogelu plant a all fod wedi'u masnachu
- Diogelu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt
- Diogelu plant rhag esgeulustod plant
- Diogelu plant rhag cam-drin ar-lein
- Diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol
- Diogelu plant sy'n cael eu haddysgu gartref
- Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal
- Diogelu plant rhag cam-fanteisio rhywiol
- Diogelu plant mewn perthynas â Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020
- Diogelu plant rhag cael eu Radicaleiddio

Mae gennym ddyletswyddau diogelu penodol hefyd mewn cysylltiad â'r canlynol (ymhlith eraill):

- Herio bwlio – Cydraddoldeb, Hawliau a Pharch
- Plant gydag anableddau
- Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal
- Plant yn byw gyda rhieni'n camddefnyddio sylweddau neu afiechyd y meddwl
- Plant a phobl ifanc yn y gyfundrefn cyfiawnder ieuenctid

- Plant mewn perygl o briodas dan orfod / anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM)
- Pobl ifanc sy’n camddefnyddio sylweddau
- Plant sy’n colli addysg
- Disgyblion gyda chyflyrau meddygol

Caiff amrediad ehangach o amgylchiadau diogelu penodol eu disgrifio’n fanylach ym Mhennod 5 o ganllawiau Llywodraeth Cymru ‘*Cadw Dysgwyr yn Ddiogel’*. Mae’n hollbwysig bod staff yn gwbl ymwybodol o amgylchiadau diogelu ehangach. Mae gan yr ysgol hefyd ei pholisïau ei hun mewn cysylltiad â rhai o’r rhain.

Mae'r ysgol hon yn ymdrin ag adroddiadau o aflonyddu a cham-drin rhywiol rhwng cyfoedion o ddifrif, ac yn derbyn bod pob math o aflonyddu a cham-drin rhywiol yn annerbyniol ac ni ellir eu caniatáu. Bydd yr ysgol hon yn sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i annog disgyblion i’w adrodd os ydynt yn destun unrhyw achosion o gam-drin rhywiol rhwng cyfoedion ac i sicrhau bod y cwricwlwm yn cyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb yn effeithiol, gan gynnwys y mater o gydsynio.

Mae gan yr ysgol bolisi a chynllun Iechyd a Diogelwch a gaiff ei adolygu’n rheolaidd gan gorff llywodraethol yr ysgol sy’n goruchwylio’r polisi a threfniadau iechyd a diogelwch yr ysgol ar y cyd â’r Pennaeth.

## Rheoli Honiadau / Pryderon ynghylch Ymarferwyr a’r rhai mewn Sefyllfaoedd Ymddiriedol

Os bydd plentyn neu rywun ifanc yn gwneud honiad yn erbyn aelod o’r staff,bydd yr ysgol yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Adran 5. Rhaid i bwy bynnag sy’n derbyn yr honiad hwnnw drosglwyddo manylion y pryder ar unwaith i’r Pennaeth neu, yn absenoldeb y Pennaeth, i aelod o’r staff gyda chyfrifoldebau arwain uwch. Bydd y Pennaeth yna’n cysylltu â’r Tîm Asesu Gofal Plant i drafod y camau nesaf yn unol â threfniadau lleol. Fe all y Pennaeth hefyd ofyn am gyngor Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (SDALI) sy’n rheoli honiadau/pryderon am ymarferwyr sy’n gweithio gyda phlant ar 01437 776222.

Os caiff honiad diogelu ei wneud yn erbyn y Pennaeth, rhaid i’r aelod o’r staff sy’n derbyn yr honiad hwnnw gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr a fydd yna’n cysylltu â’r Tîm Asesu Gofal Plant neu Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (SDALI). Mae modd gofyn am gyngor naill ai’r TAGP neu’r SDALI bob amser.

### Camddefnyddio sefyllfa ymddiriedol

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru’n nodi bod angen i holl staff addysg wybod bod ymddygiad amhriodol gyda phlant, neu tuag atynt, yn annerbyniol. Yn arbennig, dan Ddeddf Troseddau Rhywiol, 2003, mae’n drosedd i rywun dros 18 (er enghraifft athro neu athrawes, gweithiwr ieuenctid) gael perthynas rywiol gyda phlentyn dan 18 pan fo’r unigolyn dan sylw mewn sefyllfa ymddiriedol o ran y plentyn, hyd yn oed os yw’r berthynas yn ymddangos yn un gydsyniol. Mae hyn yn berthnasol i blentyn neu rywun ifanc sy’n dilyn addysg lawn-amser a’r unigolyn yn gweithio yn yr un sefydliad, hyd yn oed os nad yw’n dysgu’r plentyn neu’r un ifanc. (Gwelwch Atodiad E – Camfanteisio ar Ymddiriedaeth)

**Cyfarfod Adran 5**

Lle mae pryder wedi codi ynglŷn ag ymddygiad aelod o staff neu fod honiad yn cael ei wneud yn ei gylch, a bod penderfyniad wedi ei wneud i fwrw ymlaen â gweithdrefnau Adran 5, mae'n hanfodol bod y pennaeth yn cael ei wahodd i'r cyfarfod a/neu'n cael gwybod am y cyfarfod. Mae hyn oherwydd, mewn ysgolion mwy, efallai nad yr unigolyn diogelu dynodedig yw'r pennaeth, ac felly mae'n bosibl na fydd ganddo wybodaeth lawn am amgylchiadau'r unigolyn dan sylw cyn y cyfarfod.

1) Rhaid i'r mynychwr gwadd (yr unigolyn diogelu dynodedig fel arfer) hysbysu'r pennaeth o'r cyfarfod Adran 5 – mater i'r pennaeth yw penderfynu a yw'n mynychu neu a yw'n dyrannu'r cyfarfod hwn i unigolyn diogelu dynodedig arall.
2) Rhaid i'r pennaeth neu'r unigolyn diogelu dynodedig fod yn ymwybodol o unrhyw bryderon yn ymwneud â'r aelod o staff a allai fod yn berthnasol i'r cyfarfod Adran 5 ac unrhyw benderfyniadau / camau gweithredu neu ganlyniadau.

## Cynorthwyo plant a phobl ifanc

Mae camdriniaeth ac esgeulustod yn ddinistriol i blant neu bobl ifanc a gall hefyd beri gofid a phoen meddwl i staff sy'n ymwneud â nhw. Rydym yn cydnabod y gall fod effaith ddofn ar blant sy'n dioddef camdriniaeth ac esgeulustod neu'n gweld trais. Efallai mai'r ysgol yw'r unig elfen sefydlog, ddiogel a rhagweladwy ym mywydau plant a phobl ifanc sy'n dioddef camdriniaeth ac esgeulustod. Fodd bynnag, fe all eu hymddygiad fod yn heriol yn yr ysgol neu gallant fynd yn encilgar. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i gynorthwyo'r disgyblion trwy gymryd holl honiadau o ddifrif a gwneud y canlynol:

- sicrhau bod y DSP yn hysbysu pawb ac yn gyswllt canolog. Pan fo aelod o'r staff yn destun honiad plentyn neu rywun ifanc, caiff cyswllt ar wahân ei enwebu i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau
- ymateb gyda chydymdeimlad i unrhyw gais gan ddisgyblion neu staff am amser rhydd i ddelio â gofid neu boen meddwl
- cadw cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth ar sail bod angen gwybod gydag unigolion ac asiantaethau perthnasol yn unig
- cadw a storio cofnodion yn ddiogel a hysbysu Gofal Cymdeithasol cyn gynted â bod pryder yn dychwelyd
- cynnig manylion llinellau cymorth, cwnsela neu gymorth allanol arall
- cydweithredu'n llawn gydag asiantaethau statudol perthnasol

Mae cynnwys cwricwlwm yr ysgol yn annog hunan-barch, hunangymhelliad, cydberthnasoedd iach a hawliau plant a bydd yn hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel ac yn rhoi ymdeimlad o fod yn ddiogel ac o gael eu gwerthfawrogi i blant a phobl ifanc.

Mae'r ysgol yn cydnabod ac yn cefnogi plant neu bobl ifanc sy'n lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol, yn drawsrywiol neu'n cwestiynu eu rhywedd (LHDTC+). Er nad yw plentyn neu berson ifanc sy'n LHDTC+ ynddo'i hun yn ffactor risg gynhenid ar gyfer niwed, weithiau gall plant sydd yn neu'n cael eu hystyried yn LHDTC+ (p'un a ydyn nhw ai peidio) gael eu targedu gan eraill a bod yn agored i gael eu bwlio neu eu cam-drin. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i leihau unrhyw rwystrau canfyddedig a darparu gofod diogel iddynt a/neu ddarparu oedolyn y gallant ymddiried ynddo i rannu eu pryderon. Mae'n ofynnol i staff rannu unrhyw bryderon diogelu perthnasol gyda'r uwch swyddog dynodedig.

Bydd yr ysgol yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy'n anelu at gynorthwyo plant a phobl ifanc agored i niwed trwy dderbyn y gall rhai plant fabwysiadu ymddygiadau treisiol y dylid eu cyfeirio at gymorth ac ymyriad mewnol priodol.

Bydd yr ysgol yn ymdrechu i sicrhau bod y plant a phobl ifanc yn gwybod bod rhyw ymddygiad yn annerbyniol ond eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn hytrach na'u beio am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd. Bydd yr ysgol yn gwneud y canlynol:

- cytuno ar agwedd gyson sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y plant neu bobl ifanc ond heb niweidio'u hymdeimlad o hunan-barch
- cadw cyswllt ag asiantaethau eraill fel Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad, Gwasanaeth Lles Addysg a gwasanaethau eirioli os oes gofyn

Pan fo plentyn neu rywun ifanc gyda chynllun amddiffyn plentyn yn trosglwyddo i ysgol arall, bydd y DSP yn cysylltu'n uniongyrchol â swyddog perthnasol yn yr ysgol newydd i drefnu trosglwyddo unrhyw wybodaeth ddiogelu berthnasol neu gynllun amddiffyn plentyn. Mae'r 'Polisi cadw cofnodnion' yn rhoi canllawiau ar drosglwyddo cofnodion diogelu.

**Defnyddio ymyriad corfforol**

Caiff ein polisi ar ymyriad corfforol ei gyflwyno ym mholisi ein hawdurdod lleol '*Trin Cadarnhaol a Defnyddio Mannau o'r Neilltu ar gyfer Ysgolion / Sefydliadau Addysgol – Mehefin 2022'.* Caiff ei adolygu bob blwyddyn gan y corff llywodraethol ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar '*Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau 097/2013'.* Mae'r ysgol hefyd yn ymwybodol o '*Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol'* Llywodraeth Cymru.

## Dyletswydd PREVENT

'Mae Ysgol ................................ wedi ymrwymo'n llawn i ddiogelu a hyrwyddo lles ei holl ddisgyblion. Mae pob aelod o staff yn cydnabod nad yw diogelu rhag radicaleiddio ac eithafiaeth yn wahanol o gwbl i ddiogelu rhag unrhyw beth arall yn y gymdeithas sydd ohoni sy'n peri i blant fod yn agored i niwed. Mae'r Polisi Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio yn nodi ein credoau, ein strategaethau a'n gweithdrefnau i amddiffyn unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu radicaleiddio neu rhag iddynt ddod i mewn

i gysylltiad â safbwyntiau eithafol, a hynny drwy nodi pwy ydyn nhw a darparu cefnogaeth ar unwaith iddynt.

## Diogelwch a chyfyngiadau symud

Mae ein hysgol yn ceisio sicrhau bod cymuned ein hysgol yn ymwybodol o'n gweithdrefn o ran diogelwch a rhoi cyfyngiadau symud ar waith mewn argyfwng. Cyfyngiadau symud yw'r gallu i gyfyngu'n gyflym ar y gallu i gael mynediad i safle neu adeilad ysgol (neu ran ohonynt), neu eu gadael, trwy fesurau ffisegol mewn ymateb i fygythiad, naill ai'n allanol neu'n fewnol. Y nod yw naill ai atal disgyblion, staff neu ymwelwyr rhag symud i ardaloedd o berygl neu atal/rhwystro ymosodwr rhag cael mynediad i safle (neu ran ohono). Oherwydd eu natur, efallai na fydd yn ymarferol i rai safleoedd ysgol allu gweithredu cyfyngiadau symud.

Dylid ystyried gweithdrefnau cyfyngiadau symud fel ymateb synhwyrol a chymesur i unrhyw ddigwyddiad allanol neu fewnol a allai fod yn fygythiad i ddiogelwch staff a disgyblion.

## Ymgyrch Encompass

Rydym yn ysgol Ymgyrch Encompass.
Mae Ymgyrch Encompass yn bartneriaeth dan arweiniad Heddlu Dyfed-Powys lle hysbysir ysgolion gan yr Awdurdod Lleol i Berson Diogelu Dynodedig (DSP) lle mae plentyn wedi bod yn dyst/neu'n bresennol ar adeg o gam-drin domestig.

Yn dilyn digwyddiad o'r fath yn digwydd, bydd plant yn aml yn cyrraedd yr ysgol mewn trallod ac yn amharod. Nod Ymgyrch Encompass yw sicrhau bod Person Diogelu Dynodedig (DSP) wedi'i nodi a'i fod yn cael gwybod am y digwyddiadau cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi cymorth amserol a theilwredig i blant a phobl ifanc ar ddechrau ac yn ystod y diwrnod ysgol.

## Ymgyrch Endeavour

Mae Ysgol XXXXXXX yn rhan o Ymgyrch Endeavour.
Pwrpas Ymgyrch Endeavour yw diogelu a chefnogi'r plant a'r bobl ifanc hynny yr adroddwyd eu bod ar goll o'u cartrefi.
Nod Ymgyrch Endeavour yw sicrhau bod Person Diogelu Dynodedig (DSP) wedi'i nodi o fewn yr ysgolion a'i fod yn cael gwybod am y digwyddiadau cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi cymorth amserol a theilwredig i blant a phobl ifanc ar ddechrau ac yn ystod y diwrnod ysgol.

## Cwynion

Mae gan yr ysgol Drefn Gwyno a seiliwyd ar yr enghraifft yn y *Gweithdrefnau Cwyno ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru 2022*, ac mae ynddi hysbysrwydd

cwyno i blant fel bod plant, staff a’r cyhoedd yn gallu cyflwyno eu cwynion ynghylch yr ysgol, gan gynnwys cwynion Diogelu a phryderon na chymerwyd camau Diogelu.

## Atodiad A

## Ymateb i honiad plentyn neu rywun ifanc

### Derbyn

Gwrandewch yn ofalus ar yr hyn sy'n cael ei ddweud, heb ddangos syndod nac anghrediniaeth. Derbyniwch yr hyn sy'n cael ei ddweud ac, er y gallai'r plentyn neu rywun ifanc sy'n gwneud yr honiad fod yn hysbys i chi fel rhywun nad yw bob amser yn dweud y gwir, ni ddylai hyn ddylanwadu ar eich barn nac annilysu'r honiad. Peidiwch â cheisio archwilio'r honiad. Eich dyletswydd chi fydd gwrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud a throsglwyddo'r wybodaeth honno.

### Tawelu Meddwl

Cysurwch, byddwch yn ddidwyll a pheidiwch â gwneud addewidion na allwch eu cadw, e.e. "Fe arhosaf gyda thi" neu "bydd popeth yn iawn nawr". Lleddfwch euogrwydd, os yw'r disgybl yn cyfeirio ato, e.e. "Nid arnat ti mae'r bai. Nid dy fai di yw hyn". Peidiwch ag addo cyfrinachedd oherwydd y bydd dyletswydd arnoch i drosglwyddo'r wybodaeth ac mae angen i'r plentyn wybod hyn.

### Ymateb

Gallwch ofyn cwestiynau ond ni ddylid casglu mwy o wybodaeth nag sy'n angenrheidiol i eglurhau'r honiad ac, fel arfer, ni ddylai fod yn fwy na siarad gyda'r plentyn neu blant dan sylw. Mae'n well os gall y plentyn neu blant roi disgrifiad rhydd heb ymyrryd i holi. Gallwch annog y plentyn neu blant i ddweud wrthych beth ddigwyddodd yn eu geiriau eu hunain trwy ddefnyddio prociau amhenodol i'r cof a chwestiynau penagored fel "eglurwch wrthyf beth ddigwyddodd", "disgrifiwch wrthyf beth ddigwyddodd", "a oes gennych chi unrhyw beth arall i'w ddweud wrthyf?"

Y cwestiynau penagored mwyaf cyffredin yw: Beth ddigwyddodd? Pryd ddigwyddodd e? Ble digwyddodd e? Pwy oedd yno? Peidiwch byth â gofyn Pam oherwydd fe all hyn awgrymu bai. Peidiwch â chasglu datganiadau "tystion" os na ofynnodd y TAGP amdanynt a pheidiwch â gofyn i'r disgyblion ailadrodd eu honiad wrth rywun arall oherwydd fe allant deimlo nad ydynt yn cael eu credu ac fe all eu cof o beth ddigwyddodd newid. Peidiwch â beirniadu'r tramgwyddwr oherwydd fe all y disgybl ddal i fod â chysylltiad emosiynol cadarnhaol â'r unigolyn dan sylw.

### Cofnodi

Cadwch gofnod cywir o'r hyn a ddywedodd y plant yn eu geiriau eu hunain ac o unrhyw gwestiynau a ofynnwyd gennych. Nodwch y dyddiad, yr amser a phwy gadwodd y cofnod ar eich cofnod ysgrifenedig, eich rôl a chadwch eich nodiadau. Peidiwch â chael eich digio gan unrhyw iaith neu eiriau cas sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio'r cam-drin. Os ydych wedi sylwi ar unrhyw gleisio gweladwy, mae'n ddefnyddiol nodi ble mae ond peidiwch â gofyn i'r plentyn dynnu unrhyw ddillad i'r diben hwn. Cofnodwch ddatganiadau ac agweddau gweladwy yn hytrach na'ch dehongliadau neu dybiaethau.

### Y Camau Olaf

Yna dylid gofyn am gyngor y DSP neu'r Pennaeth sy'n gallu cyfeirio at asiantaethau priodol neu ofyn am gyngor y Tîm Asesu Gofal Plant.

## Atodiad B

## Cyfrifoldebau'r Person Diogelu Penodedig (DSP)

**Rhaid** i bob lleoliad addysg nodi DSP sydd â'r prif gyfrifoldeb am reoli'r holl bryderon diogelu. Rhaid i'r DSP fod ar gael i drafod pryderon diogelu; dylid ymgynghori ag ef/hi, pan fo'n bosibl, ynghylch a ddylid codi pryder diogelu gyda'r awdurdod lleol; a bydd yn rheoli unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen ar unwaith i sicrhau bod yr unigolyn sy'n wynebu risg yn ddiogel rhag cael ei gam-drin. Dylai pob ymarferydd wybod pwy i gysylltu ag ef yn ei leoliad addysg i gael cyngor ac ni ddylai oedi cyn trafod ei bryderon, waeth pa mor ddi-nod y gallant ymddangos.

Nid oes angen i'r DSP fod yn athro, ond **rhaid** iddo fod yn uwch aelod o dîm arwain yr ysgol neu'r coleg gyda'r statws a'r awdurdod o fewn y sefydliad i gyflawni dyletswyddau'r swydd, gan gynnwys ymrwymo adnoddau i faterion diogelu a chyfarwyddo staff eraill. Gallai'r DSP hefyd fod yn benodiad unigol o fewn yr uwch dîm ac nid oes angen iddo gyflawni dyletswyddau eraill.

**Dylai** fod gan bob DSP o leiaf un dirprwy sydd â statws cyfartal a mynediad i'r un hyfforddiant. Bydd nifer y dirprwyon yn dibynnu ar y lleoliad addysg, a dylai adlewyrchu cyfran y gwaith dan sylw a maint a graddfa'r lleoliad addysg. Dylai fod gan leoliadau addysg mwy o faint dîm o staff yn gweithio gyda'i gilydd a dylai fod gan leoliadau addysg ar ddau safle DSP ar gael ar bob safle.

Dylai fod gan y DSP y sgiliau a'r rhinweddau angenrheidiol ar gyfer y rôl, a fydd â ffocws cryf ar gyfathrebu â dysgwyr a gweithwyr proffesiynol. Gall hon fod yn rôl feichus a bydd angen lefel o arbenigedd, gwybodaeth, adnoddau a chefnogaeth.

Gall ymdrin ag achosion unigol fod yn gyfrifoldeb a ddirprwyir i aelodau eraill o staff, ond mae'n bwysig bod uwch aelod o staff yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y maes gwaith hwn. Dylid hysbysu'r DSP bob amser am gynnydd a chanlyniad pob achos. Dylai'r holl staff sy'n cymryd y cyfrifoldebau hyn fod wedi'u hyfforddi'n llawn ac yn fedrus yn eu cyfrifoldebau.

Mewn lleoliadau addysg sydd â nifer fawr o bryderon diogelu, dylid ystyried penodi DSP amser llawn gyda sgiliau a phrofiad perthnasol. Gallai trefniant arall olygu dirprwyo cyfrifoldebau o ddydd i ddydd tra bod y DSP yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol, fel y disgrifir uchod.

**Dylai** fod gan y DSP gefnogaeth a goruchwyliaeth ddigonol i gyflawni ei rôl yn effeithiol. Dylai'r oruchwyliaeth gefnogi'r DSP ag effaith emosiynol ei rôl a rhoi cyfle i fyfyrio ar ei ymarfer. Gellid gwneud hyn ar sail unigol neu grŵp ond dylid rhoi cyfle i'r DSP gael cymorth unigol lle bo angen.

**Rhaid** i'r DSP wybod sut i adnabod a nodi arwyddion o gam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed, ni waeth a yw ar-lein neu all-lein, a gwybod pryd mae'n briodol adrodd i'r awdurdod lleol (neu'r heddlu lle mae'r plentyn/plant mewn perygl uniongyrchol).

Mae rôl y DSP yn cynnwys darparu cyngor a chymorth i staff eraill, cadw cofnodion, gweithio gydag aelodau o'r teulu neu ofalwyr, atgyfeirio at y gwasanaethau plant a mynychu cyfarfodydd statudol, yn ogystal â chysylltu a gweithio gydag asiantaethau

eraill yn ôl yr angen. Nid ymchwilio i honiadau yw rôl y DSP, ond mae'n **rhaid** iddo hysbysu'r pennaeth/prifathro am yr holl bryderon diogelu a godir yn yr ysgol neu'r coleg.

**Dylai'r** DSP hefyd ystyried sut y gellir mynd i'r afael â diogelu'n ehangach a sicrhau bod mesurau ataliol yn cael eu mabwysiadu yn y lleoliad addysg. Bydd y rhan hon o'r rôl yn cynnwys meithrin perthynas ag asiantaethau eraill, yn ogystal â sicrhau bod staff a dysgwyr yn cael gwybod am risgiau a sut i gael cymorth. Bydd hyn yn rhan o'r dull ysgol gyfan (lleoliad) a dysgu drwy'r cwricwlwm newydd.

Bydd y DSP yn cymryd cyfrifoldeb am arferion, polisi, gweithdrefnau a datblygiad proffesiynol diogelu ac amddiffyn plant y lleoliad addysg, gan weithio gydag asiantaethau eraill yn ôl yr angen.

## Cyfeirebau

1.1 Dylai'r DSP weithredu fel man cyswllt a ffynhonnell cymorth, cyngor a gwybodaeth arbenigol o fewn y sefydliad wrth benderfynu gwneud adroddiad (cyfeireb) neu beidio trwy gadw cyswllt ag asiantaethau perthnasol.

1.2 Y DSP sy'n gyfrifol am roi adroddiadau (cyfeirebau) ynghylch honiadau o gam-drin i'r asiantaethau ymchwilio perthnasol. Pan fo'r rhain yn berthnasol i achosion o gamdriniaeth honedig neu honiadau yn erbyn staff, mae'r broses yn cael ei chyflwyno yng nghanllawiau Gweithdrefnau Diogelu Cymru a chanllawiau '*Diogelu plant ym myd addysg: trin honiadau o gam-drin proffesiynol yn erbyn athrawon a staff eraill 2014'* Llywodraeth Cymru.

## Cadw cofnodion

1.3 Cyfrifoldeb y DSP yw cadw cofnodion ysgrifenedig / electronig manwl, cywir a diogel o blant a phobl ifanc lle mae pryderon diogelu. Mae'r cofnodion hyn yn gyfrinachol a dylid eu cadw ar wahân i gofnodion disgyblion. Dylent gynnwys cronoleg pryderon, adroddiadau (cyfeirebau), cyfarfodydd, galwadau ffôn ac e-byst.

1.4 Dylai'r holl gofnodion a wneir o bryderon, gan gynnwys niferoedd isel o gofrestriadau, nodi unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd neu ymatebion a wnaed fel y rhesymau a roddir dros y nifer isel o gofrestriadau.

1.5 Gall teuluoedd fod yn gymhleth ac, mewn llawer o achosion, gall ceisio llunio cronoleg o berthnasau o gofnodion hanesyddol fod yn ddryslyd iawn. Dylai cofnodion adlewyrchu'r bobl arwyddocaol sy'n byw ar aelwyd plentyn yn ôl eu henw yn ogystal â'u dynodiad o fewn y teulu.

1.6 Pan fydd plant neu bobl ifanc yn gadael y sefydliad, dylai'r DSP sicrhau anfon copi o'u ffeiliau diogelu i'r sefydliad newydd mor fuan ag y bo modd ond eu trosglwyddo ar wahân i brif ffeiliau'r disgyblion. Mae canllawiau pellach i'w cael yn nogfen CSP '*Cadw a throsglwyddo cofnodion diogelu'.*

## Cynyddu ymwybyddiaeth

1.7 Y DSP sy'n gyfrifol am sicrhau bod rhieni neu ofalwyr yn ymwybodol o bolisi diogelu'r ysgol. Mae hyn yn osgoi creu lle i wrthdaro trwy ddweud wrthynt am

swyddogaeth y sefydliad a'r ddyletswydd i hysbysu pryderon. Bydd llawer o ysgolion yn cynnwys gwybodaeth am hyn mewn cyfarfodydd cynefino ar gyfer rhieni newydd, yn eu prosbectws ac ar eu gwefan.

1.8 Mae'n arfer da i'r DSP roi cyfarwyddyd blynyddol a diweddariadau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff ar unrhyw hysbysrwydd diogelu newydd neu newidiadau mewn gweithdrefnau lleol. Mae hyn yn sicrhau bod holl staff yn cael eu diweddaru a'u hatgoffa'n rheolaidd o'u cyfrifoldebau, a pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol. Mae'n ddefnyddiol trafod diogelu'n rheolaidd mewn cyfarfodydd staff fel bod ymwybyddiaeth yn aros yn uchel.

1.9 Dylai'r DSP gadw cyswllt â'r Llywodraethwr Penodedig dros ddiogelu, fel bod y materion diogelu'n cael eu hysbysu yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol. Ni ddylai adroddiadau i'r corff llywodraethol fod ynghylch plant a phobl ifanc penodol, ond dylent adolygu'r polisïau a gweithdrefnau diogelu. Mae'n arfer da i'r llywodraethwr enwebedig a'r DSP gyflwyno'r adroddiad gyda'i gilydd.

1.10 Dylai'r DSP a'r llywodraethwr diogelu sicrhau bod polisi diogelu'r sefydliad yn cael ei adolygu'n flynyddol a sicrhau bod archwiliad diogelu ysgolion Adran 175 yn cael ei gwblhau.

**Adolygu'r polisi**

1.11 Yn ogystal â pholisi diogelu'r ysgol, mae polisïau eraill sy'n berthnasol i ddiogelu a gall y Person Diogelu Dynodedig ymwneud â monitro effeithiolrwydd y polisïau eraill hyn i sicrhau bod yr ysgol yn diogelu ei disgyblion. Gallai polisïau perthnasol eraill gynnwys:

- arferion gweithio diogelach / cod ymddygiad staff / ymddygiad proffesiynol
- iechyd a diogelwch
- cynhwysiant / ADY / AAA
- presenoldeb ac ymddygiad
- ymdriniaeth gadarnhaol / ymyrraeth gorfforol
- herio bwlio
- gofal personol
- recriwtio a dethol diogel
- diogelwch ar-lein
- cyfrinachedd
- chwythu'r chwiban
- cynllun cydraddoldeb strategol
- teithio i'r ysgol ac oddi yno

Gellir dod o hyd i bolisïau diogelu eraill yn ardal ddiogelu'r awdurdod lleol ar Hwb (Cwmwl Addysg).

1.12 Mae gan yr awdurdod lleol ragor o gymorth a chanllawiau ar gyfer y DSP ac mae'r NSPCC hefyd yn darparu adnoddau a chanllawiau defnyddiol.

## Diogelu a hyfforddiant amlasiantaethol

1.13 Swyddogaeth y DSP, gan weithio gyda'r pennaeth, yw sicrhau bod holl staff a gwirfoddolwyr:

- yn cael mynediad at ac yn deall polisi diogelu'r ysgol yn enwedig staff newydd, rhan-amser neu gyflenwi sy'n gallu gweithio gyda gwahanol sefydliadau addysgol
- yn cael cynefino ac yn dilyn hyfforddiant e-Ddysgu diogelu '*Diogelu Plant, Pobl ifanc ac Oedolion*'
- yn ymgymryd â hyfforddiant e-Ddysgu arbenigol arall y DSP:
    - Hyfforddiant e-Ddysgu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
    - Radicaleiddio
    - Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
    - Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
    - Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl
    - Trais ar sail Anrhydedd a Phriodasau dan Orfod
    - Ymwybyddiaeth Atal Hunanladdiad
    - Hunan-niwed
    - Llinellau Cyffuriau (*County Lines*)
- yn gallu adnabod arwyddion a dangosyddion camdriniaeth ac esgeulustod
- yn gwybod sut i ymateb yn effeithiol pan fo ganddynt bryderon
- yn gwybod sut i ymateb yn briodol i honiad
- yn gwybod bod cyfrifoldeb arnynt i hysbysu unrhyw bryderon ar unwaith

1.14 Dylai'r Person Diogelu Dynodedig gadw cofnodion hyfforddiant yn nodi presenoldeb yr holl staff a phryd y disgwylir cynnal yr hyfforddiant nesaf.

1.15 Yn ogystal â'r gofyniad bod Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Llywodraethwr Penodedig yn dilyn hyfforddiant diogelu, dylai hyfforddiant diogelu fod ar gael i'r holl lywodraethwyr i sicrhau ymwybyddiaeth sylfaenol a chyson. Mae cyrff llywodraethol yn gyfrifol am sicrhau fod polisïau a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu'n ateb gofynion statudol a dylai holl lywodraethwyr wybod beth i wneud os oes ganddynt bryderon ynghylch plentyn.

1.16 Mae'r Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i raglenni AGA achrededig ei wneud o ran diogelu plant mewn addysg. Dylai athrawon gael hyfforddiant mewn diogelu fel rhan o'r rhaglenni AGA sy'n arwain at Statws Athro Cymwys (SAC), ond bydd angen i hyn gael ei atgyfnerthu gan hyfforddiant pellach, neu hyfforddiant gloywi, pan gânt eu penodi gyntaf. Mae'r Safonau SAC yn gyfres o ddatganiadau canlyniad y mae'n rhaid i athrawon dan hyfforddiant eu bodloni sy'n gysylltiedig â chyhoeddiadau eraill a gofynion statudol fel y bo'n briodol.

1.17 Rhaid i bob aelod o staff sicrhau bod perthnasoedd â dysgwyr yn cael eu hadeiladu ar gyd-ymddiriedaeth a pharch, a chydnabod y bydd hyn yn cynorthwyo gwneud y gorau o'u haddysg. Mae disgwyl iddynt roi tystiolaeth o'r safon hon trwy allu dangos gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o iawnderau a hawliau holl ddysgwyr, yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

1.18 Dylai staff a llywodraethwyr eraill gael hyfforddiant ar eu penodiad cyntaf. Dylai holl staff sydd heb gyfrifoldeb penodedig dros ddiogelu, gan gynnwys athrawon, ddilyn hyfforddiant lleol addas ar gyfnodau rheolaidd wedi hynny, i gadw'u gwybodaeth a sgiliau'n gyfredol.

1.19 Mae ysgolion unigol yn gyfrifol am sicrhau bod gan staff y cymhwysedd a hyder i gyflawni eu dyletswyddau diogelu a hyrwyddo ffyniant plant. Bydd yr awdurdod lleol yn gallu rhoi cyngor ar hyfforddiant gofynnol staff.

1.20 Diben hyfforddiant amlasiantaethol yw cael gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y canlynol:

- cyd-ddealltwriaeth o'r gorchwylion, prosesau, egwyddorion, a swyddog-aethau a chyfrifoldebau sy'n cael eu hamlinellu mewn canllawiau cenedlaethol a threfniadau lleol ar gyfer diogelu plant a hybu eu lles
- gwasanaethau mwy effeithiol ac integredig yn strategol ac unigol
- gwell cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys dealltwriaeth gyffredin o dermau, diffiniadau a throthwyon allweddol
- cysylltiadau gwaith effeithiol, gan gynnwys gallu gweithio mewn grwpiau neu dimau amlddisgyblaethol
- penderfynu cadarn yn seiliedig ar rannu gwybodaeth, asesu trwyadl, dadansoddi beirniadol, a barn broffesiynol.

1.21 Dylai'r DSP gael hyfforddiant mewn gweithdrefnau rhwng asiantaethau sy'n galluogi iddynt weithio fel partneriaid gydag asiantaethau eraill, ac sy'n rhoi'r wybodaeth a sgiliau iddynt ar gyfer cyflawni eu cyfrifoldebau. Dylent hefyd ddilyn hyfforddiant rheolaidd i gadw'u gwybodaeth a sgiliau'n ddiweddar. Mae dewislen hyfforddiant diogelu i'w chael drwy adran Datblygiad Proffesiynol Parhaus adran hyfforddiant Dysgu a Datblygu.

1.22 Dylai staff eraill gael hyfforddiant ar eu penodiad cyntaf a dilyn hyfforddiant diweddar rheolaidd i gadw'u gwybodaeth a sgiliau'n gyfoes.

## Atodiad C

## Cyfrifoldebau cyrff llywodraethol / perchenogion

1.0 Mae cyrff llywodraethol yn atebol am sicrhau fod polisïau a gweithdrefnau effeithiol yn bodoli i ddiogelu a hyrwyddo ffyniant plant yn unol â'r canllawiau hyn, ac arolygu ei gydymffurfiad â nhw.

1.1 Dylai cyrff llywodraethol ysgolion a gynhelir a pherchenogion ysgolion annibynnol sicrhau bod eu sefydliadau priodol yn gwneud y canlynol:

- bod â pholisïau a gweithdrefnau diogelu sydd:
  - yn unol â chanllawiau'r awdurdod lleol a gweithdrefnau rhwng asiantaethau a gytunwyd yn lleol
  - yn cynnwys gwasanaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol (e.e. llety, gweithgareddau cymunedol yn yr ysgol, ac ati)
  - yn cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn
  - ar gael i rieni neu ofalwyr ar gais
  - yn cael eu darparu ar ffurf briodol i ddealltwriaeth plant, yn enwedig pan fo ysgolion yn darparu ar gyfer plant gydag anghenion ychwanegol

- gweithredu trefnau denu staff diogel sy'n ystyried yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc, gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod holl wiriadau priodol yn cael eu gwneud ar staff newydd a gwirfoddolwyr heb oruchwyliaeth fydd yn gweithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau DBS perthnasol

- sicrhau bod y pennaeth a holl staff parhaol eraill a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant yn dilyn hyfforddiant priodol i roi'r wybodaeth a sgiliau sy'n angenrheidiol iddynt gyflawni eu dyletswyddau diogelu'n effeithiol, a'u cadw'n ddiweddar trwy hyfforddiant rheolaidd

- rhoi arweiniad eglur i staff dros dro a gwirfoddolwyr sy'n cyflenwi yn ystod absenoldebau byrdymor, a fydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, ar drefniadau'r sefydliad ar gyfer diogelu a'u cyfrifoldebau

- sicrhau bod y corff llywodraethol yn unioni ar unwaith unrhyw ddiffygion neu wendidau o ran trefniadau diogelu sy'n cael eu codi

- sicrhau bod y DSP, y llywodraethwr penodedig a chadeirydd y llywodraethwyr yn dilyn hyfforddiant mewn gweithio rhwng asiantaethau sy'n unol â threfniadau'r awdurdod lleol ac sy'n gloywi eu gwybodaeth a'u sgiliau'n rheolaidd, yn ogystal â hyfforddiant diogelu.

## Llywodraethwr penodedig

1.2 Enwi Llywodraethwr Penodedig ar gyfer Diogelu i wneud y canlynol:

- bod yn gyfrifol am faterion diogelu
- sicrhau bod y corff llywodraethol yn adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol bob blwyddyn gan gynnwys ystyried sut y cyflawnodd ei gyfrifoldebau

- cadw cysylltiad â'r awdurdodau statudol o ran y broses ddisgyblaethol ar sail canllawiau Llywodraeth Cymru *Gweithdrefnau ar gyfer Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol (002/2013)*

1.3 Tra bo gan gyrff llywodraethol swyddogaeth wrth arfer eu swyddogaethau disgyblaethol o ran honiadau diogelu yn erbyn aelod o'r staff, nid oes ganddynt swyddogaeth wrth ystyried achosion unigol a fydd yn cael eu hymchwilio dan drefniadau *Diogelu plant ym myd addysg: trin honiadau o gam-drin proffesiynol yn erbyn athrawon a staff eraill* (cylchlythyr Llywodraeth Cymru 009/2014).

1.4 Dylai holl aelodau'r corff llywodraethol ddilyn hyfforddiant diogelu perthnasol i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau a deall eu cyfrifoldebau diogelu ehangach. Dylai aelodau'r corff llywodraethol gwblhau pum modiwl '*Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'* sydd i'w cael ar yr HWB. Yr argymhelliad hefyd yw bod llywodraethwyr yn dilyn y modiwl e-Ddysgu '*Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion*' trwy Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae gwybodaeth ddefnyddiol arall am swyddogaeth ddiogelu llywodraethwyr i'w chael ar wefan Llywodraethwyr Cymru hefyd.

Atodiad D

## Diffiniadau a dangosyddion cam-drin

‘Plentyn mewn perygl’ yw plentyn:

- sy’n dioddef neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed; a hefyd
- sydd ag anghenion gofal a chymorth (boed yr awdurdod yn diwallu unrhyw rai o’r anghenion hynny neu beidio).

Mae plentyn yn dioddef camdriniaeth neu esgeulustod pan fydd rhywun yn peri anaf, neu’n peidio â gweithredu i atal niwed. Fe all plant gael eu cam-drin mewn teulu, neu mewn amgylchedd sefydliadol neu gymunedol, gan rai sy’n gyfarwydd iddynt neu, yn llai cyffredin, gan ddieithryn. Plentyn yw unrhyw un sydd eto heb gyrraedd eu 18fed pen-blwydd. Felly, mae ‘plant’ bob amser yn golygu ‘plant a phobl ifanc’. Nid yw’r ffaith bod plant wedi cyrraedd 16 oed ac efallai’n byw’n annibynnol yn newid eu statws na’u hawl i wasanaethau neu ddiogelwch dan Ddeddf Plant 1989.

Dylai pawb wneud y canlynol:

- bod yn effro i ddangosyddion camdriniaeth neu esgeulustod;
- bod yn effro i beryglon camdrinwyr i blant;
- rhannu eu pryderon fel bod modd casglu gwybodaeth i gynorthwyo asesu anghenion ac amgylchiadau’r plentyn;
- gweithio gydag asiantaethau i gyfrannu at gamau gweithredu sydd eu hangen i ddiogelu a hyrwyddo ffyniant y plentyn;
- cynnal y plentyn a’r teulu.

Categorïau cam-drin yw corfforol, rhywiol, emosiynol / seicolegol, ariannol ac esgeulusol fel yr amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5 – Trin Achosion Unigol i Ddiogelu Plant mewn Perygl.

Mae’r canlynol yn rhestr anghyflawn o enghreifftiau o bob un o gategorïau camdriniaeth ac esgeulustod (mae diffiniadau manylach i’w cael yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru adran 2 – Canfod pan fo plentyn mewn perygl o niwed – Arwyddbyst Arferion Arwyddion a Dangosyddion):

**Camdriniaeth gorfforol –** taro, slapio, gor- neu gamddefnyddio moddion, ataliaeth ormodol neu gosbau amhriodol.

**Camdriniaeth emosiynol / seicolegol –** bygythion niweidio neu adael, rheolaeth drwy orfodaeth, codi cywilydd, cam-drin llafar neu hiliol, ynysu neu gadw rhag gwasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, gweld cam-drin eraill.

**Camdriniaeth rywiol –** gorfodi neu ddenu plentyn neu rywun ifanc i gyfranogi mewn gweithgareddau rhywiol, boed y plentyn yn ymwybodol o beth sy’n digwydd neu beidio, fel y canlynol: cyffwrdd corfforol, gan gynnwys gweithgareddau treiddiol neu anhreiddiol; gweithgareddau digyffwrdd, fel cynnwys plant wrth edrych ar, neu wrth

gynhyrchu, deunydd pornograffaidd neu wylio gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.

**Camdriniaeth ariannol –** bydd y dosbarth hwn yn llai cyffredin ymhlith plant ond dangosyddion fyddai'r canlynol:

- Peidio â diwallu eu hanghenion gofal a chymorth sy'n cael eu darparu trwy daliadau uniongyrchol
- Cwynion bod eiddo personol ar goll

**Camdriniaeth esgeulusol –** peidio â diwallu anghenion corfforol, emosiynol neu seicolegol sylfaenol sy'n debygol o arwain at amhariad ar iechyd a datblygiad.

## Atodiad E

# Camfanteisio ar Ymddiriedaeth

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru'n nodi bod angen i holl staff wybod bod ymddygiad amhriodol gyda phlant, neu tuag atynt, yn annerbyniol. Yn arbennig, dan Ddeddf Troseddau Rhywiol, 2003, mae'n drosedd i rywun dros 18 (er enghraifft athro neu athrawes, gweithiwr ieuenctid) gael perthynas rywiol gyda phlentyn dan 18 oed pan fo'r unigolyn dan sylw mae mewn sefyllfa ymddiriedol o ran y plentyn, hyd yn oed os yw'r berthynas yn gydsyniol. Mae hyn yn berthnasol pan fo'r plentyn yn dilyn addysg lawn-amser a'r unigolyn dan sylw'n gweithio yn yr un sefydliad â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw'n dysgu'r plentyn.

Mae holl gysylltiadau rhwng staff a disgyblion yn seiliedig ar ymddiriedaeth. Â siarad yn gyffredinol, mae modd disgrifio perthynas ymddiriedol fel un lle bo un ochr mewn sefyllfa ymddiriedol neu ddylanwad dros y llall, yn rhinwedd eu gwaith neu natur eu gweithgaredd. Fe all unigolyn yn y sefyllfa ymddiriedol allu peri llwyddiant neu fethiant. Fe all y berthynas gael ei hystumio gan ofn neu gymwynas. Mae'n hanfodol i bawb yn y fath sefyllfaoedd ymddiriedol ddeall y grym sydd ganddynt dros y rhai yn eu gofal a'u cyfrifoldeb o ganlyniad. Tra bo'r fath berthynas ymddiriedol yn bod, mae'n beth drwg caniatáu i berthynas ddatblygu mewn ffordd a allai arwain at berthynas rywiol. Bydd perthynas rywiol ei hun yn y bôn yn anghyfartal mewn perthynas ymddiriedol ac yn annerbyniol o ganlyniad. Mae hefyd yn amhriodol oherwydd y byddai'r berthynas 'broffesiynol' ymddiriedol yn newid.

Pennodd Deddf (Newid) Troseddau Rhywiol 2000 gyfres o alwedigaethau y mae cyfreithiau Camddefnyddio Sefyllfa Ymddiriedol yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn cynnwys pawb sy'n gweithio mewn sefydliad addysgol. Prif ddiben y darpariaethau Camfanteisio ar Ymddiriedaeth yw gwarchod pobl ifanc 16 a 17 oed, sy'n cael eu hystyried yn agored arbennig i gamfanteisio gan y rhai sydd mewn sefyllfa ymddiriedol neu awdurdod yn eu bywydau.

Yn amodol ar nifer o ddiffiniadau cyfyngedig, mae'n drosedd i rywun mewn sefyllfa ymddiriedol gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd rhywiol gyda rhywun dan 18 oed pan fo perthynas ymddiriedol rhyngddynt, heb ystyried oed cydsynio, hyd yn oed os yw sail eu perthynas yn gydsyniol. Mae perthynas yn bodoli pan fo aelod o'r staff neu wirfoddolwr mewn sefyllfa o rym neu ddylanwad dros bobl ifanc 16 neu 17 oed yn rhinwedd y gwaith neu natur y gweithgaredd sy'n cael ei wneud.

Mae'r egwyddorion yn berthnasol heb ystyried cyfeiriadedd rhywiol: nid yw cysylltiadau cyfunrywiol na gwahanrywiol yn dderbyniol mewn sefyllfa ymddiriedol. Maent yr un mor berthnasol i bawb, heb ystyried rhyw, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd. Dyma faes lle mae'n bwysig iawn osgoi unrhyw stereoteipio rhywiol neu stereoteipio arall. Yn ogystal, mae'n bwysig derbyn y gall menywod yn ogystal â dynion gamfanteisio ar sefyllfa ymddiriedol.

Dylai holl staff sicrhau bod eu cysylltiadau gyda phobl ifanc yn briodol i'w hoed a'u rhyw, a gofalu nad yw eu hiaith ac ymddygiad yn destun siarad neu ddyfalu. Mae agweddau, ymarweddiad ac iaith i gyd angen gofal ac ystyriaeth, yn enwedig wrth ymwneud â'r glasoed.

## Atodiad F

# Gwybodaeth am Ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru



## Atodiad G
## Diogelu Ar-lein

Mae gan bob ysgol ddyletswydd statudol i weithredu mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo diogelwch plant ar-lein, fel yr amlinellir yn Adran 7 o ganllawiau Llywodraeth Cymru 'Cadw dysgwyr yn ddiogel'.
Mae ein hysgol yn blaenoriaethu diogelwch ar-lein ac mae ein polisïau a'n harferion diogelu wedi'u datblygu i sicrhau diwylliant lle caiff dysgwyr eu diogelu wrth ddefnyddio offer digidol yr ysgol. Mae Safonau Digidol Addysg Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i ysgolion ar reoli'r amgylchedd digidol.
Rydym wedi ymrwymo i feithrin a hyrwyddo defnydd diogel a chadarnhaol o dechnoleg i blant a phobl ifanc trwy adeiladu strwythur cadarn o amgylch y plentyn lle mae ymarferwyr yn fedrus ac mae teuluoedd yn ymwybodol o sut i gefnogi plant yn eu bywydau ar-lein.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, 'Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein', yn rhoi trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i wella cadernid digidol plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r ysgol yn cadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru 'Ffrydio byw a fideo-gynadledda: arferion ac egwyddorion diogelu' pan fo angen i grwpiau o ddysgwyr ysgol gael eu haddysgu trwy lwyfan digidol.

Mae'r ysgol hefyd yn defnyddio '360 safe Cymru', sef offeryn hunanasesu diogelwch ar-lein i ysgolion.

**Atodiad H**

**Wythnos Anghymesur**

Fel ysgol, rydym yn cynnal wythnos anghymesur a amlinellir yn ein polisi presenoldeb.
Fel rhan o’n dyletswydd diogelu, bydd gennym unigolyn diogelu dynodedig ar y safle yn ystod adegau pan fydd yr ysgol yn gweithredu’r prynhawn gofal plant / lles (diffiniad yn unol â pholisi presenoldeb yr ysgol) ar y safle.
Byddwn yn cadw cofnod manwl gywir o bawb ar y safle sy’n mynychu’r prynhawn gofal plant / lles a chofnod clir o’r rhai sydd â chydsyniad rhieni i adael safle’r ysgol ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Bydd hyn yn sicrhau y dilynir unrhyw weithdrefnau diogelu / brys / gwacáu yn achos ymarfer tân a diogelwch.

## Adolygu'r Polisi

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i gadarnhau bob blwyddyn mewn cyfarfod llawn o'r corff llywodraethol o leiaf unwaith y flwyddyn a chofnodi hynny yn y cofnodion. Gallai'r DSP neu'r Pennaeth fod eisiau rhoi gwybodaeth am y canlynol i'r Corff Llywodraethol:

- newidiadau i'r gweithdrefnau diogelu;
- hyfforddiant a wnaed gan yr holl staff a llywodraethwyr yn y 12 mis blaenorol;
- nifer y digwyddiadau o natur ddiogelu yn yr ysgol yn ystod y 12 mis blaenorol (heb fanylion nac enwau);
- bel a sut mae diogelu'n ymddangos yn y cwricwlwm;
- gwersi a ddysgwyd o adolygiadau ymarfer plant neu arferion lleol.

| | Enw | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd y Llywodraethwyr | Mr Paul Rapi | PRapi | 02.09.2025 |
| Pennaeth yr Ysgol | Mrs Sioned King | SKing | 02.09.2025 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Adolygu | |

# Cyngor Sir Penfro
# Pa Hyfforddiant Diogelu sydd ei angen arnaf?




## 1 Gwaith pwy yw diogelu?

Mae diogelu'n Fusnes Pawb!
Cyfrifoldeb pawb ohonom yw diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl, boed hynny'n rhan o'n swyddogaeth, NEU fel aelod o'n cymuned.
Nid yw plant yn gallu diogelu eu hunain a dylent allu dibynnu ar oedolion o'u cwmpas i'w cadw'n ddiogel. Fe all pobl ifanc ac oedolion agored i niwed deimlo'n ddiymadferth i gadw'u hunain yn ddiogel rhag cam-drin a chamfanteisio.
Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau ein bod wedi ymgymryd â'r hyfforddiant perthnasol ar gyfer ein swydd.

## 2 Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion (Gorfodol)

Mae'r modiwl e-Ddysgu hwn trwy POD yn **orfodol** i holl gyflogeion awdurdodau lleol, aelodau etholedig, gwasanaethau comisiwn, staff a gwirfoddolwyr. Mae angen ailadrodd yr hyfforddiant hwn bob tair blynedd, gan gwmpasu'r canlynol:

- Deddfwriaeth a Chanllawiau
- Mathau o gam-drin a mathau eraill o bryderon ynghylch diogelu
- Astudiaethau achos
- Pryderon ynghylch hysbysu
- Sut allwch chi gynorthwyo a gwneud cyfeireb

## 3 Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Deuluol a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Gorfodol - Grŵp 1)

Mae'r modiwl e-Ddysgu hwn drwy POD yn ofyniad hyfforddiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru o'r enw 'Gofyn a Gweithredu' ac mae'n **orfodol** i holl gyflogeion awdurdodau lleol. Mae angen ailadrodd yr hyfforddiant hwn bob tair blynedd, gan gwmpasu'r canlynol:

- Rhoi ymwybyddiaeth o beth yw trais yn erbyn menywod, camdriniaeth deuluol a thrais rhywiol, sut i adnabod y materion hyn a sut i gael cymorth.
- Defnyddio astudiaethau achos i roi prawf ar eich gwybodaeth am y materion ac ystyried profiad teulu.

## 4 VAWDASV – Gofyn a Gweithredu (Grwpiau 2 a 3)

Rhaid i ddeiliaid swyddi penodol mewn awdurdodau lleol ddilyn yr hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Grŵp 2 a 3. Techneg o ymholiad wedi'i dargedu yw 'Gofyn a Gweithredu'. Mae'n annog gweithwyr proffesiynol perthnasol i "Ofyn" i ddefnyddwyr gwasanaethau oedolion ynghylch posibilrwydd camdriniaeth ac i "Weithredu" ar y wybodaeth a gânt, fel bod llai o ddioddefwyr trais a chamdriniaeth.
Grŵp 2 yw gweithdy hanner diwrnod yn anelu'n bennaf at holl gyflogeion awdurdodau lleol sy'n dod i gysylltiad â 'chwsmeriaid'.
Grŵp 3 yw gweithdy diwrnod llawn i'r cyflogeion awdurdod lleol hynny a ddynodwyd yn 'Hyrwyddwyr' ac a fydd yn cynnig cymorth i gyflogeion eraill.
Dylid ailadrodd yr hyfforddiant hwn bob 2 flynedd.

## 5 Diogelu Plant
## Prosesau a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant

Mae'r cwrs undydd hwn ar gyfer holl staff sy'n cymryd rhan ym mhroses amddiffyn plant, a allai orfod mynychu neu ysgrifennu adroddiadau ar gyfer cynadleddau amddiffyn plant, grwpiau craidd, cyfarfodydd gofal a chymorth neu adolygiadau LAC. Mae angen ei ailadrodd bob tair blynedd.
Rhaid bod holl fynychwyr wedi gorffen y Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion e-Ddysgu gorfodol cyn mynychu. Mae'n cwmpasu'r canlynol:

- Deddfwriaeth gan gynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019.
- Trosolwg cynhwysfawr o broses amddiffyn plant o gyfeireb i asesiad, cynadleddau amddiffyn plant, grwpiau craidd a chynlluniau diogelu.

## 6 Diogelu - Honiadau / Pryderon ynghylch Ymarferwyr a'r rhai mewn Swyddi Ymddiriedol

Mae'r hyfforddiant hwn ar gyfer holl reolwyr / arweinwyr sy'n rheoli tîm o staff sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl NEU a allai ddod ar draws plant neu oedolion mewn perygl fel rhan o'u swyddogaeth. Mae angen ei ailadrodd bob tair blynedd gan gwmpasu'r canlynol:

- Y fframwaith deddfwriaethol
- Proses a gweithdrefn hysbysu honiad
- Mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd strategaeth honiadau proffesiynol
- Hyrwyddo diwylliant gweithio mwy diogel a datblygu codau ymddygiad yn eich sefydliad

## 7 Hyfforddiant Diogelu Arall

Er mwyn ymestyn eich gwybodaeth am ddiogelu mae amryw fodiwlau e-Ddysgu i'w cael ar POD ar gyfer holl staff ac aelodau etholedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Camfanteisio Rhywiol ar Blant (CSE)
- Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)
- Trais ar Sail Anrhydedd a Phriodas dan Orfod
- Caethiwed Cyfoes a Masnachu mewn Pobl
- Radicaleiddio
- Atal a Chynyddu Ymwybyddiaeth o Hunanladdiad
- Llinellau Cyffuriau – rhwydweithiau gwerthu cyffuriau anghyfreithlon